

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 2^{IL} HYDREF 2019 YN FESTRI PANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Elen H. Edwards (EHE), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Gwynfor Davies (GD) a Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Lloyd Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW) a Mark Davies (MD)

Cydymdeimlwyd â GLL yn ei absenoldeb yn dilyn profedigaeth deuluol.

2 DATGAN DIDDORDEB

7.3 – EHE yn rhinwedd ei gwaith. Dim diddordeb personol.

3 COFNODION I'W GWIRO 31^{AIN} GORFFENNAF 2019

AV yn cynnig ac REW yn eilio eu bod yn gywir.

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION 3) UCHOD

5.2: EW wedi cysylltu â Meira Woosnam – gweler 5.1 isod.

7.1: Angen trefnu pwyllgor bach cyn y cyfarfod nesaf i ddiwygio rhain. Cododd EW fod angen diweddarau'r cofnod datganiadau diddordeb ers i Elwen Owen adael ei swydd fel cler, angen diweddarau a chadw cofnod.

7.2: REW yn gofyn os oes angen ffurfleni gan y Cyngor ar gyfer cynghorydd newydd. EW i gysylltu efo Lucy Steele yn yr adran etholiadau yn y Cyngor Sir ynglyn â hyn. Cododd AV fod llyfr i gynghorwyr newydd arwyddo eu bod yn derbyn y rheolau, angen dod o hyd i hwn.

7.3: Elwen Owen angen gwybod dyddiad er mwyn rhoi hysbyseb yn y Gadlas. Cynnigwyd dyddiad 10^{fed} Ionawr 2020 a phasiwyd y dyddiad. CR am adael i Elwen Owen wybod a gofyn wrthi lle mae'r rheolau. Rhoi ar agenda cyfarfod nesaf i ddiwygio'r rheolau.

8.2: GD yn adrodd fod popeth wedi newid yn gywir erbyn hyn. Dywedodd GD wrth y Cyngor ei fod wedi cael trafferthion efo'r banc a'i fod wedi cael cyfweliad ganddynt.

10.4: Anfonebau heb eu talu, EW wedi cysylltu i ddweud fod safon y gwaith ddim yn dderbyniol, ddim wedi cael ateb ers hynny. Dim pellach i'w wneud tan/os bydd unrhyw lythyr pellach yn dod i law.

10.5: CVSC – EW am yrru'r ffurflen ymaelodi i mewn ynghyd â siec am £15.

5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

5.1 Mainc Solar: EW wedi trafod efo Meira Woosnam faint o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r fainc. Mainc yn Llanfair TH yn gwneud yn well na'r ddwy arall sydd wedi eu gosod gan CCBC, mae'n debyg gan ei bod mewn lleoliad agored ger y cyrtiau tennis yn y pentref. Trafodwyd fod angen lleoliad newydd agored yn Llangernyw i leoli'r fainc, cynnigwyd safle ger yr arhosfan fws wrth yr ysgol, ger Tŷ'r Gôf ac ar y glaswellt dros y ffordd â'r amgueddfa. Penderfynwyd fod angen meddwl am leoliad addas i'r fainc felly pasio'r mater ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

5.2 Parcio yn Llangernyw: gohebiaeth wedi dod i law i roi cyfyngiadau parcio yng nghanol y pentref ger y siop fach.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

6.1 0/46576 – Cais wedi ei wrthod gan y Cyngor Sir ar sail fod yr anedd ddim yn fforddiadwy. Penderfynwyd cefnogi'r cais eto. CR i ddelio.

- 6.2** 0/46618 – Penderfynwyd cefnogi'r cais a gofyn i'r Cyngor pam nad oes adroddiadau ynghlwm â'r cais. CR i ddelio.
- 6.3** 0/46696 – penderfynwyd cefnogi'r cais. CR i ddelio.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Wedi trafod yn 4) uchod.

7.2 Wedi trafod yn 4) uchod.

7.3 EHE yn mynd trwy'r ffurflen a'i chwblau efo mewnbwn y Cynghorwyr yn ystod y cyfarfod. Diolchwydd iddi am ei gwaith yn llenwi'r ffurflen.

7.4 EHE yn adrodd fod Grant Brenig yn agored am geisiadau bellach. Cymuned Bro Cernyw yn disgyn o fewn y dalgylch 15km o'r fferm wynt. Er mwyn cael grant mae angen dangos fod budd o'r fferm wynt yn mynd i'r ardal o fewn y 10km i'r fferm. Trafodwyd ei bod yn mynd i fod yn anodd felly cael budd i'r ardal o'r gronfa hon onibai fod grwpiau o'r ardal am drefnu triapiau er enghraifft i'r ardal megis Canolfan Brenig neu o fewn 10km i'r fferm.

8 MATERION ARIANNOL

8.1 EHE yn adrodd fod dim ateb wedi bod dilyn cais am anfoneb yr awdit wedi ei thorri lawr.

9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Anfonwyd y canlynol i law'r Cyngor gan y Cynghorydd Sir oedd wedi ymddiheuro nad oedd yn medru bod yn bresennol:

- Cyngor Sir - mae'r 'tymor' wedi ail ddechrau a'r prif drafodaethau ar hyn o bryd yw sut y bydd Cyngor Conwy a'r Cabinet newydd yn delio hefo diffyg ariannol posib o £13 miliwn y flwyddyn ariannol nesaf. Er bod disgwyl rhywfaint mwy o arian i Addysg a Gofal Cymdeithasol o Lundain a Chaerdydd, dyw pethau ddim yn edrych yn addawol iawn. Bydd nifer o gyfarfodydd briffio dros y misoedd nesaf a byddaf yn rhannu unrhyw wybodaeth hefo chi.
- Cynllun Cludiant Cymunedol. Er i mi ymdrechu yn deg i geisio sefydlu cynllun cludiant lleol ar gais nifer o drigolion yr ardal mae'n ymddangos nad oes fawr o alw am hynny. Llwyddwyd i gael arian grant i gynnal arolwg dichonoldeb ac fe anfonwyd bron i fil o ffurflenni i gartrefi yn Llangernyw, Pandy, Gwytherin a Llanfair TH. Yn anffodus dim ond 39 a dderbyniwyd yn ol (4%) ac o'r rheiny ychydig iawn o alw oedd yna am sefydlu gwasanaeth cludiant newydd i'r ardal. Serch hynny, byddaf yn gweithio hefo'r Cyngor Sir a'r Fforwm Ardal Leol er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth cludiant/bysus sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Mae bwriad i ddiwygio'r Fforwm Ardal Leol er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol i'n pentrefi a'n cymunedau ac er mwyn ceisio rhoi mwy o gefnogaeth a chymorth i'r Cynghorau Cymuned. Mae hynny ar waith gennym.
- Yr Hen Efail - yn dilyn penderfyniad y Cyngor Cymuned ym mis Chwefror eleni i beidio a derbyn cynnig Mrs Mackeson-Sandbach o drosglwyddo perchnogaeth y safle i'r Gymuned, fe gafodd y cynnig ei ymestyn yn gyhoeddus i unrhyw sefydliad neu gymdeithas a allai fod â didordeb. Chefais i ddim ymateb o gwbl, felly rydw'i wedi sgwennu at Mrs Mackeson-Sandbach yn gofyn iddi ddymchwel yr hen adeilad a gwneud y safle yn ddiogel.
- Hoffwn i ymddiheuro hefyd - roedd aelodau wedi gofyn i mi sgwennu erthygl i'r Gadlas yn egluro'r newidiadau i ffiniau etholaethol o fewn y ward ac i egluro pam bod hynny wedi digwydd, ond yn anffodus oherwydd prysurdeb yr Eisteddfod ac amgylchiadau teuluol ar ôl hynny, dwi ddim wedi llwyddo i wneud hynny hyd yma. Mi fydda'i siwr o wneud gynted a phosib.

- I gloi - mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd 'tymor' Cyngorwyr Sir drwy Gymru yn ymestyn am flwyddyn ychwanegol o ganlyniad i wrthdaro dyddiadau hefo etholiad y Cynulliad - gewch chi benderfynu os yw hynny yn newyddion da, ynta drwg!"

10 BILIAU

- 10.1** Canolfan Bro Cernyw £15, pasiwyd i dalu.
- 10.2** Trwsio'r llwybr cyhoeddus yn Llangernyw – DR wedi bod yn delio efo'r Cyngor Sir i drefnu ad-daliad o'r anfoneb. DR wedi rhoi manylion cyswllt CR fel cadeirydd i'r Cyngor Sir. Aros i glywed ymhellach.
- 10.3** Torri mynwent gan Dei Evans mis Medi £400. Pasiwyd i dalu.
- 10.4** Cyflog Enlli £29.31.

DR yn codi fod angen mantolen newydd, DR am baratoi hon gyda gwybodaeth gan GD.

11 MATERION LLEOL

Blwch Ffôn Llangernyw: EW yn adrodd fod Sioned Green efo diddordeb i'r blwch gael ei roi ar dir yr ysgol. Angen paratoi llythyr swyddogol i'w drosglwyddo gan y Cyngor i'r Ysgol. CR i ofalu am baratoi gohebiaeth. Yr ysgol i ofalu am safle a symud y blwch.

Gwaith papur hanesyddol y Cyngor: CR yn adrodd fod gan Elwen Owen ddogfennau yn dal i fod, cynnig fod y Cyngorwyr yn dod at eu gilydd i fynd trwyddynt. Trefnwyd 8^{fed} Hydref am 7:30pm yn Festri Pandy Tudur.

EHE yn codi fod Fforwm Cyngorau Cymuned a Thref yn cael ei chynnal am 6:30pm 16^{eg} Hydref er gwybodaeth i'r Cyngorwyr. Cyngor yn edrych ar faesydd chwarae i'w trosglwyddo i'r Cyngorau Cymunedau.

DR yn codi fod llawer o gwyno yn lleol am am sŵn a llygredd aer adeg penwythnos Gŵyl y Banc ddiwedd Awst yn dilyn digwyddiad ceir ar ffyrdd a chaeau lleol.

Gohebiaeth gan BDO wedi dod i law yn dweud nad yw'r archwiliad wedi ei orffen.

Nodyn i'w osod yn yr hysbysfyddau – CR i ofalu.

Gor-yrru trwy Llangernyw. CR am sôn wrth Daisy Devero (PCSO). Person ifanc wedi codi hyn efo EW hefyd.

AV plannu blodau yn y bocsys lleol yn y pentrefi. Delio efo'r Clwb Garddio i drefnu. AV i adrodd yn ôl cyfarfod nesaf. Arian wedi ei glustnodi yn y presept ar gyfer y bylbiau. Aelod o'r cyhoedd o Gwytherin wedi cysylltu yn holi am sgip, EW wedi delio â hyn. Wedi gyrru at Cyngor Conwy i ddiolch am dacluso'r ffyrdd ac arwyddion yn yr ardal cyn yr Eisteddfod.

EW sgipiau bellach wedi eu harchebu, Gwytherin 29^{ain} Hydref, Pandy Tudur 30^{ain} Hydref. Hysbysiau i fynd i'r Gadlas a phosteri yn y pentrefi. Ychwanegu trafod dyletwysddau cyngorwyr a mandad banc i agenda'r cyfarfod nesaf.

REW wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd yn gallu gweld y cofnodion ar safle wê. Cadarnhawyd fod rhain i'w cael ar wefan Bro Cernyw, y rhai diweddara yw Mehefin 2019. Cwyn arall wedi dod i law fod car yn parcio ger fynwent Capel Garnedd yn berygl. Trafod fod angen cysylltu â Daisy Devero (PCSO) i ofyn os oedd modd iddi ddelio efo'r mater. CR i ddelio.

GD wedi derbyn gohebiaeth gan Sian Williams yng Nghyngor Conwy yn dilyn cwyn am y newid i'r system etholiad. Yr ymateb i'r gŵyn ddim yn foddhaol. Dim llawr gall Conwy wneud am y mater, fod y newid wedi ei wneud i gywiro'r wardiau.

GJ yn holi pa mor aml mae'r glaswellt yn cael ei dorri ym mharciau chwarae plant. Mater i'r Cyngor Sir yw hwn.

12 CYFARFOD NESAF

23^{ain} Hydref 2019

Cyfarfod yn dod i ben 9:30pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan